SIARC

Cronfa Treftadaeth Heritage Fund

Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government

# ADRODDIAD PROSIECT 2: Awst – Tachwedd 2023

## Y Prif Uchafbwyntiau

Bu’r prosiect SIARC yn ffilmio eitem gyda Lizzie Daly ar gyfer The One Show y BBC ynglŷn â’r defnydd o arolygon Systemau Fideo Tanddwr o Bell ag Abwyd (BRUVS). Yr eitem i’w darlledu yn 2024.



Aeth tîm y prosiect SIARC i gynhadledd Cymdeithas Elasmobranciaid Ewrop yn Brighton, lle rhoddodd y prosiect SIARC dri chyflwyniad.





## Partneriaethau Pysgotwyr

- Wedi bod i Gystadleuaeth Agored Genweirwyr Môr De Cymru yng Nghaerdydd.
- Parhau i ddatblygu cyfleoedd pysgotwyr ifanc.

## Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant

- Swyddog cymunedol Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi’i recriwtio ac yn parhau i ddatblygu rhwydwaith y prosiect Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Parhau i ddatblygu strategaeth ddrafft Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

## Systemau Fideo Tanddwr o Bell ag Abwyd (BRUVS) ac Instant Wild

- Gosodwyd 23 BRUVS o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a’r Sarnau.
- Hyrwyddwyd y prosiect SIARC ar Instant Wild ar SciStarter, lle anfonwyd e-gylchlythyr at ryw 67,000 o gyfranogwyr.

## Ymgysylltu ag Ysgolion

- Sesiynau cyfarfod â’r gwyddonwyr yn cael eu trefnu ar gyfer y tymor ysgol nesaf yn 2024.

## Dinasyddion Wyddonwyr

- Cymerodd 45 o bobl ran mewn digwyddiadau hel plisg wyau ar y tir a threialwyd dulliau newydd.
- Cafodd ap realiti rhithwir adnabod plisg wyau ei arddangos yng Ngŵyl Wyddoniaeth Abertawe.

## Dadansoddi

- Aeth tîm y prosiect SIARC i gynhadledd Cymdeithas Elasmobranciaid Ewrop yn Brighton, lle rhoddodd y tîm dri chyflwyniad, sef:
  - Galluogi ystod ehangach o bobl i ymgysylltu â chadwraeth forol gan ddefnyddio elasmobranciaid yng Nghymru.
  - Canfod presenoldeb elasmobranciaid yng Nghymru gan ddefnyddio DNA amgylcheddol.
  - O dan wyneb arfordir Cymru gan ddefnyddio BRUVS.

## Ymgysylltiad Ehangach

- Cyrhaeddodd y cyfryngau cymdeithasol 56,631 o gyfrifon.
- Eitem am BRUVS wedi'i ffilmio ar gyfer The One Show y BBC.
- Bu'r prosiect SIARC yn yr Eisteddfod.
- Dosbarthwyd e-gylchlythyr. Cofrestrwch **yma** i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

## Grŵp Ymchwil

- Cynhaliwyd cyfarfod grŵp ymchwil ar-lein ym mis Hydref gydag 17 o bobl yn bresennol.

## Digwyddiadau Dyrannu

- Cafodd dau faelgi ac un ci glas eu dal a'u rhoi i'r Rhaglen Ymchwil i Forfilod wedi Tirio (CSIP) ar gyfer dyrannu yn y dyfodol.

## Rheoli Prosiectau

- Dim diweddariad

| Dibenion Cymeradwy (NNF) | Cynnydd |
|---|---|
| PARTNERIAETH PYSGOTWYR – PS wedi'i gynllunio ar y cyd â physgotwyr a'u cymdeithasau neu glybiau, trwy berthnasoedd gwaith cryfach ac amrywiol. | |
| MYND I'R AFAEL Â BYLCHAU DATA – Mae bylchau data blaenoriaeth ar sut mae elasmobranciaid yn defnyddio nodweddion gwarchodedig mewn dwy Ardal Cadwraeth Arbennig wedi'u llenwi; data a ddefnyddir yng ngwaith cynghori a gwneud penderfyniadau CNC, mewn cydweithrediad agos â physgotwyr. | |
| TEGWCH, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT – Deall safbwyntiau amrywiol a ddefnyddir i oresgyn rhwystrau i gyfranogiad a sicrhau mwy o degwch, amrywiaeth a chynhwysiant yng nghadwraeth forol Cymru. | |
| GALLUOGI CYNNWYS Y GYMUNED – Mynediad demograffig ehangach i amgylchedd morol Cymru gan ddefnyddio realiti rhithwir, gweithgareddau iechyd yr amgylchedd yn fyd-eang ac Instant Wild. | |
| YSBRYDOLI'R GENHEDLAETH NESAF – Mae plant ysgol o gefndiroedd amrywiol yn cyflawni canlyniadau dysgu ar gynaliadwyedd a'r byd naturiol ac yn dangos hyder mewn technolegau digidol. | |
| ARDDANGOS AMGYLCHEDD MOROL CYMRU – Mae mwy o amrywiaeth o gymunedau yng Nghymru yn dysgu am yr amgylchedd morol, gan ddefnyddio elasmobranciaid yn flaengar ym maes cyfathrebu dwyieithog. | |

Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government